



# Modiwl 10

17 Medi 2024



# Amlinelliad Dros Dro o'r Cwmpas ar gyfer Modiwl 10: Effaith ar gymdeithas

Modiwl 10 yw modiwl olaf Ymchwiliad Covid-19 y DU ac, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, bydd yn archwilio effaith Covid ar boblogaeth y Deyrnas Unedig gan ganolbwyntio'n benodol ar weithwyr allweddol, y rhai mwyaf agored i niwed, y rhai sydd wedi cael profedigaeth, iechyd meddwl a llesiant. Bydd yn ymchwilio i effaith y pandemig a'r mesurau a roddwyd ar waith i frwydro yn erbyn y clefyd ac unrhyw effaith anghymesur.

Bydd y modiwl hefyd yn ceisio nodi lle mae cryfderau cymdeithasol, gwytnwch a/neu arloesi wedi lleihau unrhyw effaith andwyol.

Bydd Modiwl 10 felly'n archwilio effaith y pandemig a'r mesurau a roddwyd ar waith ar:

1. Boblogaeth gyffredinol y DU gan gynnwys yr effaith ar iechyd meddwl a lles y boblogaeth. Bydd hyn yn cynnwys yr effaith ar lefel gymunedol ar sefydliadau chwaraeon a hamdden a diwylliannol ac effaith gymdeithasol y cyfyngiadau ar gau ac ailagor a osodwyd ar y diwydiannau lletygarwch, manwerthu, teithio a thwristiaeth. Bydd hefyd yn ymdrin ag effaith cyfyngiadau ar addoli o ganlyniad i gau ac ailagor manau addoli.
2. Gweithwyr allweddol, ac eithrio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ond gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yng ngwasanaeth yr heddlu, gweithwyr tân ac achub, athrawon, glanhawyr, gweithwyr trafnidiaeth, gyrrwyr tacsis a danfon nwyddau, gweithwyr angladdau, swyddogion diogelwch a gweithwyr gwerthu a manwerthu sy'n wynebu'r cyhoedd. Bydd yn cwmpasu:
  - Effaith gweithredu penderfyniadau'r llywodraeth
  - Unrhyw anghydraddoldeb yn effaith ymyriadau, gan gynnwys cyfyngiadau symud, profi a diogelwch yn y gweithle
  - Unrhyw anghydraddoldeb yn yr effaith ar ganlyniadau iechyd, megis heintiau, marwolaethau a lles meddyliol a chorfforol.
3. Y rhai mwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai a amlinellwyd yn Natganiad Cydraddoldeb yr Ymchwiliad yn ogystal â'r rhai sy'n agored i niwed yn glinigol ac sy'n hynod agored i niwed yn glinigol. Bydd yn cynnwys y pynciau canlynol:
  - Tai a digartrefedd
  - Diogelu a chymorth i ddiodefwrwr cam-drin domestig
  - Y rheini o fewn y system fewnfudo a lloches
  - Y rheini mewn carchardai a lleoedd cadw eraill
  - Y rhai yr effeithir arnynt gan weithrediad y system gyfiawnder.
4. Y galarwyr, gan gynnwys cyfyngiadau ar drefniadau angladd a chladdedigaethau a chymorth ar ôl profedigaeth.

## **Nodyn i Gyfranogwyr Craidd posibl ar gyfer Modiwl 10**

Mae'r Cadeirydd yn cydnabod bod cwmpas Modiwl 10 yn eang ac y gellid dweud bod llawer iawn o unigolion a sefydliadau yn cael eu heffeithio yn y modd a nodir yn yr Amlinelliad Dros Dro o Gwmpas. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Cadeirydd yn bwriadu dynodi dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n gallu siarad ag amrediad o ddiwydiannau a/neu rannau o gymdeithas yr effeithir arnynt ac sy'n cynrychioli'r Deyrnas Unedig gyfan.

Mae'n bosibl y bydd eraill yn dal i allu cyfrannu at y modiwl drwy ddarparu tystiolaeth o'u profiad mewn ffyrdd eraill, megis drwy ddatganiadau tyst neu Mae Pob Stori o Bwys.



© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This publication is available at [add web address]

Any enquiries regarding this publication should be sent to us [at add contact details].